

Adolygiad Diwylliant GTADC

Cwestiynau Cyffredin

1. Pam fod yr Adolygiad yn digwydd?

Yn dilyn adroddiad Newyddion ITV ar 12fed o Ragfyr, 2022, pan roddodd tystion enghreifftiau o aflonyddu rhywiol, ymddygiad amhriodol a diwylliant amddiffynnol o fewn gweithle Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ("y Gwasanaeth"), ymrwymodd y Prif Swyddog Tân, Huw Jakeway, i gomisiynu adolygiad diwylliannol annibynnol ("yr Adolygiad").

Ceir amcanion yr Adolygiad a'r Cylch Gorchwyl llawn yn

https://www.decymru-tan.gov.uk/ap/llwythoifyny/2023/04/Cylch-Gorchwyl-Adolygiad-Diwylliant-Annibynnol-Gwasanaeth_Tan-De-Cymru-4.4.23.pdf

Bydd y tîm Adolygu yn ystyried yr holl wybodaeth a ddarperir i ni fel rhan o'r Adolygiad. Fodd bynnag, os oes gennych achwyniad neu gŵyn benodol yr hoffech i ni ymdrin â hi ar wahân, dylid dilyn Gweithdrefn Gwyno'r Gwasanaeth (os ydych chi'n weithiwr cyfredol) neu'r Weithdrefn Gwyno (os ydych chi'n gyn-weithiwr neu'n aelod o'r cyhoedd) yn y ffordd arferol.

2. Pwy fydd yn cynnal yr Arolwg?

Mae'r Adolygiad yn cael ei arwain gan y Cadeirydd Fenella Morris CB, ynghyd â'i gyd-fargyfreithwyr Charlene Ashiru a Gethin Thomas. Bydd y tîm Adolygu hefyd yn cael ei gynorthwyo gan arbenigwyr o Walking the Talk, cwmni sy'n arbenigo mewn diwylliant gweithle.

3. Pwy all gyfrannu at yr Adolygiad?

Rydym ni, y tîm Adolygu, yn gwahodd aelodau cyfredol ac aelodau staff blaenorol (gan gynnwys pobl sydd wedi ymddeol), asiantaethau partner a chydweithwyr Golau Glas, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd a hoffai rannu eu profiadau i gysylltu â thîm yr Adolygiad yn uniongyrchol, drwy law e-bost swfrsreview@gmail.com.

Rydym yn gweithio'n galed i estyn allan at bawb a allai fod â gwybodaeth yr hoffent ei rhannu â'r Adolygiad, gan gynnwys cyn-weithwyr, aelodau o'r Gwasanaeth sydd wedi ymddeol ac aelodau o'r cyhoedd. Os ydych chi'n adnabod rhywun a allai fod â rhywbeth i'w gyfrannu at yr Adolygiad, anogwch nhw i gysylltu â ni hefyd.

4. A fydd y tîm Adolygu yn cysylltu ag asiantaethau partner sy'n gweithio gyda, a/neu'n rhannu eiddo, â gweithwyr y Gwasanaeth ac yn ystyried eu barn?

Rydym yn annog pawb a allai bod â gwybodaeth i'w rhannu am ddiwylliant y Gwasanaeth i gysylltu â ni, os ydych chi'n gyflogedig gan y Gwasanaeth ai peidio. Byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth a rennir gyda ni wrth gynnal yr Adolygiad

5. Sut gallaf gyfrannu at yr Adolygiad?

Gellir cymryd rhan yn yr Adolygiad mewn nifer o ffyrdd:

- **E-bost:** ewch anfon e-bost at y tîm Adolygu ar adolygiad GTADC swfrsreview@gmail.com gan ddarparu manylion am eich profiadau gyda GTADC a/ neu unrhyw wybodaeth arall yr ydych chi'n ei hystyried i fod yn berthnasol i'r Adolygiad, gan gynnwys gwybodaeth unigol/ personol amdanoch chi eich hun neu bobl eraill a/neu wybodaeth sy'n berthnasol i'r sefydliad neu'r Gwasanaeth.
- **Cyfweliadau 1:1:** cewch drefnu cyfweliad 1:1 gydag aelod o'r tîm Adolygu, wyneb yn wyneb neu'n rhithwir drwy law Microsoft Teams, drwy gysylltu â ni swfrsreview@gmail.com. Bydd yr holl gyfweliadau'n cael eu recordio a'u trawsysgrifio er mwyn i'r tîm Adolygu gael cofnod cywir o'r cyfweliad, ond ni fydd mynediad gan neb o fewn y Gwasanaeth i'r recordiadau na'r trawsgrifiadau.

- **Grwpiau ffocws rhithwir ac arolygon:** Bydd pob gweithiwr yn derbyn dolen i arolwg lle gallant gymryd rhan yn ddiennw. Bydd yr arolwg yn agor am 09:00 ar 20 Gorffennaf 2023 ac yn cau am 20:00 ar 18 Awst 2023. Bydd pobl yn cael eu dewis ar hap i gymryd rhan mewn Grwpiau Ffocws penodol. Bydd hefyd Grŵp Ffocws agored y gall pobl wirfoddoli ar ei gyfer ac yna bydd dewis ar hap yn cael ei wneud o blith gwirfoddolwyr. Cynhelir y Grwpiau Ffocws ar 8 ac 11 Medi 2023 yn swyddfeydd Blake Morgan yng Nghaerdydd.
- **Ymweliadau â gorsafoedd:** Bydd y tîm Adolygu yn cynnal nifer cyfyngedig o ymweliadau â gorsafoedd ar 18 Gorffennaf 2023. Yn anffodus, nid oes digon o amser i allu ymweld â phob gorsaf a phob Gwylfa, felly rydym yn eich annog yn gryf i gysylltu â ni yn uniongyrchol ar swfrsreview@gmail.com os oes gennych unrhyw wybodaeth yr hoffech ei rhannu gyda'r Adolygiad.

Caniateir i bobl gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i fynychu cyfweiliadau gyda'r Timau Adolygu Diwylliant a/neu Grwpiau Ffocws, ac mae'r Gwasanaeth yn eu hannog i wneud hynny. Ni fydd pobl yn wynebu unrhyw ôl-ffeithiau am gymryd rhan yn yr Adolygiad.

6. Sut gallaf gysylltu â'r tîm Adolygu?

Cewch gysylltu â'r tîm Adolygu drwy law e-bost ar swfrsreview@gmail.com gan roi manylion am eich profiadau gyda GTADC a/neu unrhyw wybodaeth arall yr ydych chi'n ei hystyried i fod o bwys i'r Arolwg.

7. Pwy all gael mynediad i gyfrif e-byst y tîm Adolygu?

All neb ond y tîm Adolygu cael mynediad i gyfrif e-byst swfrsreview@gmail.com. Nid oes gan neb yn GTADC fynediad i'r cyfrif e-bost. Er i'r cyfrif gael ei sefydlu gan aelod o GTADC, ers hynny mae'r tîm Adolygu wedi newid y cyfrinair a'r wybodaeth ddiogelwch er mwyn sicrhau bod y cyfrif yn breifat.

8. Sut gallaf drefnu cyfarfod gyda'r tîm Adolygu?

Gallwch drefnu cyfweiliad 1:1 gyda'r tîm Adolygu, naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithwir drwy law Microsoft Teams, drwy gysylltu â ni yn swfrsreview@gmail.com.

9. Am beth fydda i'n cael fy holi?

Os dewiswch chi gyfrannu at yr adolygiad drwy gymryd rhan yn un o'r dulliau a ddarparwyd, bydd y tîm adolygu'n gofyn cwestiynau i chi am amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y rhai isod:

- diwylliant gweithle GTADC (agweddau cadarnhaol a negyddol ill dau);
- canfyddiadau a phrofiad o amrywiaeth a chynhwysiant yn GTADC (agweddau cadarnhaol a negyddol ill dau);
- y ffactorau risg sy'n cyfrannu at ymddygiad annerbyniol, gan gynnwys bwlio ac aflonyddu;
- diogelwch seicolegol i staff yn GTADC;
- gwybodaeth a phrofiad o brosesau adrodd a chwyno, a'ch ymwybyddiaeth o bolisiau, arferion, prosesau a chefnogaeth berthnasol.

Rydym yn cydnabod y gallai cymryd rhan yn yr Adolygiad fod yn broses llawn straen i chi ac rydym am wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod eich cyfranogiad mor gyfforddus â phosibl. Os hoffech chi ddod â rhywun gyda chi wrth siarad â ni, mae croeso i chi gael rhywun i ddod gyda chi. Mae gennych hefyd yr hawl i ddewis peidio ag ateb cwestiynau os nad ydych chi'n teimlo y gallwch wneud hynny, a gallwch dynnu eich cyfranogiad yn ôl unrhyw bryd.

10. Pam y dywedwyd wrthyf am rannu profiadau da o'r Gwasanaeth?

Rydym yn awyddus i glywed am bob profiad, gan gynnwys rhai da, rhai drwg neu rai diduedd, er mwyn i ni gael trosolwg llawn o'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol yn y Gwasanaeth, adeiladu ar/hyrwyddo'r pethau da, a mynd i'r afael â/gweithio i wella'r pethau drwg . Fodd bynnag, mae gennym yr un diddordeb mewn clywed am y profiadau gwael yn ogystal â'r profiadau da - peidiwch â chael eich rhwystro rhag rhannu'r profiadau gwael wrth i ni ofyn i chi rannu profiadau da.

11. A fydd y wybodaeth y byddaf yn ei rhannu yn cael ei chadw'n gyfrinachol?

Bydd yr Adolygiad yn arwain at Adroddiad cyhoeddus. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chynnwys yn yr Adroddiad heb ganiatâd yr unigolyn dan sylw.

Rydym am i'r Adroddiad fod yn gynhwysfawr. Os byddwch yn cyfathrebu â ni "ar gofnod" bydd yn gymorth i ni gynhyrchu Adroddiad cynhwysfawr . Er enghraifft, os byddwch yn dweud rhywbeth "ar gofnod" wrthym, gallwn ei roi i bobl eraill a'i archwilio'n llawn.

Os nad ydych am gyfathrebu â ni "ar gofnod", gallwch wneud yn gyfrinachol. Bydd y Tîm Adolygu yn cadw'r cyfathrebu hwnnw'n gyfrinachol cyn belled ag y mae'n gyfreithiol bosibl i wneud hynny.

Mae Cylch Gorchwyl yr Adolygiad yn nodi ei ddull o ymdrin â Chyfrinachedd, Preifatrwydd a Braint yn fanwl. Gellir dod o hyd iddo yma:

https://www.decymru-tan.gov.uk/ap/llwythoifyny/2023/04/Cylch-Gorchwyl-Adolygiad-Diwylliant-Annibynnol-Gwasanaeth_Tan-De-Cymru-4.4.23.pdf

Mae croeso i chi gysylltu â ni ar swfrsreview@gmail.com os oes unrhyw gwestiynau pellach gyda chi.

12. A fydd yr Adolygiad yn adolygiad o brosesau disgyblu a chwyno yn unig, neu a fydd yn adolygiad ehangach o bob agwedd ar ddiwylliant y Gwasanaeth?

Bydd yr Adolygiad yn adolygiad pellgyrhaeddol o bob agwedd ar ddiwylliant y Gwasanaeth. Bydd y wybodaeth a gawn yn pennu'r agweddau allweddol ar y diwylliant hwnnw y mae angen ymchwilio iddynt yn fanylach.

Dim ond un agwedd ar yr Adolygiad yw'r adolygiad bwrdd gwaith o brosesau disgyblu a chwyno, a bydd yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r wybodaeth arall a gawn.

Ceir gweld y Cylch Gorchwyl llawn:

https://www.decymru-tan.gov.uk/ap/llwythoifyny/2023/04/Cylch-Gorchwyl-Adolygiad-Diwylliant-Annibynnol-Gwasanaeth_Tan-De-Cymru-4.4.23.pdf

13. Mae gennyf amheumon am siarad â'r tîm Adolygu ac rwy'n ofni dial os byddaf yn gwneud hynny. Beth allaf ei wneud?

Ni ddylech gael eich cosbi na bod yn destun i ddial o unrhyw fath am gysylltu â'r tîm Adolygu neu siarad ag ef. Os oes gennych bryderon, mae croeso i chi drefnu i siarad â ni yn gyfrinachol yn y lle cyntaf er mwyn trafod eich pryderon, drwy anfon e-bost atom swfrsreview@gmail.com.

14. Os byddaf yn siarad â'r tîm Adolygu am rywbeth yr wyf wedi'i weld ond heb ei herio ar y pryd, a fyddaf yn cael fy nghosbi?

Ni ddylech gael eich cosbi na bod yn destun i ddial o unrhyw fath am gysylltu â'r tîm Adolygu neu siarad ag ef. Rydym yn deall ei bod weithiau'n anodd codi pethau yr ydych wedi bod yn dyst iddynt ar y pryd ac weithiau dim ond ar ôl y digwyddiad y teimlwch y gallwch godi'r mater. Rydym yn annog pobl sydd wedi gweld ymddygiad o fewn y Gwasanaeth nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus ag ef i ddod ymlaen i siarad â ni, drwy anfon e-bost atom yn swfrsreview@gmail.com yn y lle cyntaf.

15. Gaf i rannu dogfennau GTADC gyda'r tîm Adolygu neu a fydd hyn yn torri fy rhwymedigaethau cytundebol?

Os ydych chi'n weithiwr cyfredol gyda'r Gwasanaeth a bod gennych ddogfennau sy'n perthyn i'r Gwasanaeth a allai fod yn berthnasol i'r Adolygiad yn eich barn chi, mae'r Gwasanaeth wedi cytuno y gallwch eu rhannu â'r tîm Adolygu heb dorri eich rhwymedigaethau cytundebol. Cytunwyd ar hyn fel eithriad i'r sefyllfa arferol er mwyn cynorthwyo'r Adolygiad. Ni ddylid rhannu unrhyw ddogfennau cyfrinachol sy'n perthyn i'r Gwasanaeth y tu allan i'r tîm Adolygu, ni ddylid eu defnyddio at unrhyw ddiben arall a/neu ag unrhyw drydydd parti arall (ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu gydag unrhyw gynghorydd cyfreithiol), ar hyn o bryd neu yn y dyfodol ill dau.

Os ydych chi'n gyn-weithiwr i'r Gwasanaeth a bod dogfennau gyda chi o hyd sy'n perthyn i'r Gwasanaeth, mae'n bosib y byddech chi'n torri eich dyletswyddau cyfrinachedd ac, felly, ni fyddai'n briodol i'r Adolygiad ystyried y dogfennau hynny dan yr amgylchiadau .

Os nad ydych yn sicr beth yw eich dyletswyddau o ran dogfennau sydd gennych chi, o bosib y dylech chi geisio cyngor cyfreithiol ychwanegol eich hun gan na all y tîm Adolygu eich cyngori yn hyn o beth achos ein hannibyniaeth.

16. A fydd prosesau dyrchafu yn cael eu hystyried gan yr Adolygiad?

Wrth gynnal yr ymchwiliad, os byddwn ni'n teimlo bod angen edrych ar brosesau dyrchafu a'r dogfennau mewn perthynas â phrosesau dyrchafu, gallem drefnu ei wneud. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch prosesau dyrchafu, cofiwch eu codi gyda'r tîm Adolygu.

17. Pa mor bell yn ôl mae'r Adolygiad yn mynd?

Bydd yr Adolygiad yn edrych ar brosesau disgyblu a chwyno dros y 7 mlynedd diwethaf, ond nid oes terfyn amser ar y wybodaeth y bydd y tîm Adolygu yn ei hystyried fel rhan o'r Adolygiad.

18. Oes rhaid bod fy nghwyn o fewn y 7 mlynedd diwethaf?

Nac oes, nid oes terfyn amser ar y wybodaeth y bydd y tîm Adolygu yn ei hystyried fel rhan o'r Adolygiad.

19. A fyddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth a drosglwyddir drwy'r rhif dienw Crimestoppers i lywio'ch Adroddiad?

Byddwn, trefnwyd y bydd unrhyw beth a adroddir ar linell Crimestoppers yn cael ei drosglwyddo i'r tîm Adolygu. Fodd bynnag, rydym yn annog unigolion i gysylltu â ni'n uniongyrchol hefyd er mwyn i ni gael rhagor o fanylion ac ymchwilio i'r mater ymhellach os oes angen.

20. Os gwneir datganiadau gan y Gwasanaeth neu gan unigolion, a fydd y tîm Adolygu yn ceisio profi cywirdeb y datganiadau hynny?

Bydd, os bydd rhywun yn dweud rhywbeth wrthym, byddwn yn ceisio ymchwilio iddo fel y gallwn ddeall yn llawn beth sy'n digwydd o fewn y Gwasanaeth a hynny gystal â phosibl.

Fodd bynnag, os bydd rhywun yn dweud rhywbeth yn gyfrinachol wrthym, byddwn yn gyfyngedig o ran i ba raddau y gallwn ymchwilio i'r mater ac, felly, gallai fod cwmpas cyfyngedig i ni ystyried materion o'r fath wrth hel ein casgliadau.

21. Beth yw'r amserlen ar gyfer yr Adolygiad?

Rydym yn cynnal camau cynnar yr Adolygiad a gall yr amserlen arfaethedig gyfredol, a nodir isod, newid. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu maes o law.

Mae'r amserlen a ragwelir ar gyfer yr Adolygiad fel a ganlyn:

- **Ymweliadau'r Tîm Adolygu â Chymru:** 9fed o Fehefin 2023 a 17eg-19 o Orffennaf 2023
- **Cyfweliadau 1:1:** Mehefin/Gorffennaf/Awst 2023
- **Arolwg Staff:** Mehefin/Gorffennaf 2023
- **Adolygu Dogfennau Bwrdd Gwaith:** Mehefin/Gorffennaf/Awst 2023
- **Grwpiau Ffocws Rhithwir:** Medi 2023
- **Dadansoddi Data:** Medi/Hydref 2023
- **Drafftio Adroddiad:** Tachwedd/Rhagfyr 2023
- **Adroddiad Cyhoeddus:** Rhagfyr 2023

22. A fydd y tîm Adolygu yn cysylltu ag uwch reolwyr yn ystod y broses cyn cwblhau'r Adroddiad neu bydd y broses yn gyfrifoldeb i'r tîm Adolygu yn unig gydol y broses tan adeg cyhoeddi'r Adroddiad?

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cyhoeddi adroddiadau o'r math hwn yn darparu ar gyfer proses lle os oes rhywbeth negyddol i'w ddweud am unigolyn penodol, dylai'r unigolyn hwnnw gael cyfle i ymateb cyn cyhoeddi'r Adroddiad. Mae hefyd yn arferol o fewn y fframweithiau cyfreithiol hyn i gael yr hyn a elwir yn aml yn 'wiriad cywirdeb ffeithiol', felly os

oes gwybodaeth ffeithiol yna mae angen ei gwirio cyn cyhoeddi'r Adroddiad. Fodd bynnag, ni fydd cyfle i bobl geisio dylanwadu ar gasgliadau'r tîm Adolygu.

23. Pwy fydd yn ymwneud ag ysgrifennu'r Adroddiad Cyhoeddus? A fydd y Gwasanaeth yn gweld fersiwn drafft o'r Adroddiad cyn ei gyhoeddi ar gyfer y cyhoedd a/neu a fyddant yn cael dewis pa rannau fydd ar gael i'r cyhoedd?

Dim ond tîm yr Adolygiad a'r Arbenigwyr Diwylliant fydd yn ymwneud ag ysgrifennu'r Adroddiad Cyhoeddus. Bydd yr Adroddiad cyfan ar gael i'r cyhoedd. Er y gall y Gwasanaeth weld fersiwn drafft o'r Adroddiad cyn iddo gael ei gyhoeddi i'r cyhoedd, ni fydd ganddynt unrhyw ran mewn penderfynu cynnwys yr Adroddiad a/neu'r hyn sy'n cael ei gyhoeddi.

24. Fydd ein henwau'n cael eu cynnwys yn yr Adroddiad i'r Cyhoedd?

Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chynnwys yn yr Adroddiad heb ganiatâd yr unigolyn dan sylw.

25. Fydd argymhellion, ac, os felly pryn cânt eu gweithredu?

Bydd, bydd y tîm Adolygu'n gwneud argymhellion yn seiliedig ar yr hyn yr ydym wedi'i weld a'i glywed. Cyfrifoldeb y Gwasanaeth wedyn fydd gweithredu'r argymhellion hynny yn ymarferol. Cyfrifoldeb y tîm Adolygu fydd penderfynu a oes angen cynnal adolygiadau cyfnodol mewn perthynas â'r argymhellion hynny yn y dyfodol.